Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG54968

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth

Newidiadau i Ran O y Rheoliadau Adeiladu – Gorgynhesu

Dyddiad: Tachwedd 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2026 ISBN Digidol 978-1-80853-204-7

Trosolwg

Dyma grynodeb o'r ymatebion sydd wedi dod i law ac ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 44 i 47 ynghylch y cynigion i newid Rhan O (gorgynhesu) o'r Rheoliadau Adeiladu 2010 ("y Rheoliadau Adeiladu") fel ei bod yn cynnwys gwaith adeiladu penodol ar anheddau sy'n bod yr ystyrir bod perygl mawr iddynt orgynhesu yn ystod yr haf. Roedd y cynigion hyn yn rhan o'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ran L y Rheoliadau Adeiladu 2025 a gynhaliwyd rhwng 26 Awst 2025 a 17 Tachwedd 2025.

Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am y ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maen nhw ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y ddogfen ymgynghori: Adolygiad 2025 o Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu | LLYW.CYMRU

Cynnwys

1. **Cyflwyniad** 1
2. **Ymatebion i'r ymgynghoriad** 3
3. **Ymateb i'r Asesiad Effaith** 12
4. **Y Camau Nesaf** 12

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau 44 i 47 a oedd yn cynnwys cynigion i newid Rhan O (gorgynhesu) i gynnwys gwaith adeiladu penodol ar anheddau uchel eu risg. Mae'r cynigion i'w gweld ym Mhennod 3 o'r ymatebion i'r ymgynghoriad “Adolygiad 2025 o Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu, Newidiadau i Ran L (arbed tanwydd ac ynni), Rhan O (gorgynhesu) a Rhan F (awyru) o'r Rheoliadau Adeiladu ar gyfer anheddau ac adeiladau annomestig” (a agorodd ar 26 Awst 2025 ac a gaeodd ar 17 Tachwedd 2025).

1.2 Y safbwyntiau a nodir yn y crynodeb hwn yw'r rhai a fynegwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Rheoliadau Adeiladu

1.3 Mae Rheoliadau Adeiladu yn rheoli mathau penodol o waith adeiladu, yn bennaf codi ac ymestyn adeiladau a darparu neu ymestyn gwasanaethau neu ffitiadau penodol, yn bennaf er mwyn sicrhau bod adeiladau yn cyrraedd safonau penodol o ran iechyd, diogelwch, llesiant, cyfleustra a chynaliadwyedd.

1.4 Y sawl sy'n gwneud y gwaith sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu ac mae'r system rheoli adeiladu yn helpu i sicrhau bod y lefel ofynnol o berfformiad wedi'i sicrhau. Rôl corff rheoli adeiladu, naill ai'r awdurdodau lleol neu Arolygydd Cymeradwy yn y sector preifat, yw gweithredu fel corff archwilio trydydd parti annibynnol er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth. Fel opsiwn amgen i broses archwilio trydydd parti gan gorff rheoli adeiladu, gall gosodwyr sydd wedi'u cofrestru fel aelod o gynllun hunanardystio personau cymwys ac yr aseswyd eu bod yn gymwys i wneud hynny, hunanardystio bod rhai mathau o waith yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

1.5 Mae Rheoliadau Adeiladu yn dylanwadu'n fawr ar y ffordd y caiff ein hadeiladau eu codi a'u defnyddio. Felly, maent yn helpu i sicrhau manteision sylweddol i gymdeithas. Gall fod costau i fusnesau ac unigolion yn gysylltiedig â gweithgarwch rheoleiddio hefyd. Mae natur “swyddogaethol” y Rheoliadau Adeiladu, drwy ddarparu bod rheoliadau yn pennu'r gofynion cyffredinol yn hytrach na rhagnodi sut mae'n rhaid ei gyflawni, yn ceisio cynnig hyblygrwydd a sicrhau nad yw arloesi yn cael ei rwystro. Mae’r canllawiau yn y Dogfennau Cymeradwy sy’n cyd-fynd â’r Rheoliadau Adeiladu yn nodi rhai o’r ffyrdd y gellir bodloni’r gofynion hyn, er nad oes yn rhaid eu dilyn os gellir dangos bod y lefel ofynnol i fodloni'r Rheoliadau Adeiladu yn cael ei chyflawni o ran perfformiad mewn ffordd wahanol. Mae'r dull hwn o weithredu yn rhoi eglurder i gyrff rheoli adeiladu a'r diwydiant fel ei gilydd.

Trosolwg o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

1.6 Cafwyd 88 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu darllen a'u hystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn. Darparwyd ffurflen ymateb safonol er hwylustod.

1.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a lenwodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ddewis un o 15 o fathau o sefydliadau a oedd wedi'u nodi ar y ffurflen (gan gynnwys opsiwn 'heb ei nodi' lle y gallent ychwanegu eu hateb eu hunain) i ddisgrifio eu sefydliad. Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymatebion a gyflwynwyd gan bob sector.

1.8 Ar gyfer llawer o'r cwestiynau, roedd modd i'r ymatebwyr ddewis opsiwn "Ddim yn siŵr" os oeddent yn ansicr p'un a oeddent yn cytuno â'r cynnig ai peidio. Ar gyfer rhai o'r cwestiynau, dewisodd cyfran fawr o'r ymatebwyr yr opsiwn "Ddim yn siŵr". Yn yr adborth a roddodd yr ymatebwyr hyn, yr hyn a ddywedodd llawer ohonynt oedd naill nai nad oedd ganddynt y wybodaeth arbenigol i ymateb i'r cwestiwn hwnnw neu nad oedd ganddynt farn benodol. Dim ond lle y gwnaethant nodi rheswm penodol dros eu hansicrwydd ynglŷn â'r cynnig rydym wedi cynnwys adborth gan yr ymatebwyr hyn.

1.9 Mewn ambell achos, penderfynwyd bod y sylwadau a wnaed yn fwy addas ar gyfer cwestiwn arall. Cafodd y sylwadau hyn eu trosglwyddo i'r cwestiynau perthnasol.

Sector	**Ymatebion**	**%**
Pensaer	9	10%
Adeiladwr/Datblygwr	3	3%
Meddiannydd Adeilad/Preswylydd	1	1%
Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu	5	6%
Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr	7	8%
Asesydd Ynni	2	2%
Sector ynni	1	1%
Awdurdod Lleol	8	9%
Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi	15	17%
Parti arall â diddordeb (manylwch)	28	32%
Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord	3	3%
Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu	1	1%
Adeiladwr bach/canolig	1	1%
Heb ei nodi	3	3%
Adeiladwr tai mawr	1	1%
CYFANSWM	**88**	**100%**

2. Ymatebion i'r ymgynghoriad – crynodeb ac ymateb y Llywodraeth (Cwestiynau 44 i 47)

2.1 Roedd Pennod 3 yr ymgynghoriad yn disgrifio'n cynigion ar gyfer newid y ffordd y caiff y Rheoliadau Adeiladu eu cymhwyso ar gyfer anheddau sy'n bod eisoes. Yn eu plith yr oedd cynigion i ymestyn Rhan O o'r Rheoliadau Adeiladu i gynnwys gwaith adeiladu penodol ar anheddau presennol yr ystyrir bod perygl mawr iddynt orgynhesu yn ystod yr haf.

2.2 Mae ein cynigion yn rhoi sylw arbennig i ddwy senario yr ystyrir bod y perygl mwyaf iddynt orgynhesu:

- Senario 1: Newid ffenestr(i) mewn fflatiau â llawer iawn o wydr.

Mae risg gymharol uchel y bydd fflatiau presennol sy'n wydrog iawn yn gorgynhesu oherwydd gwres yr haul. Y bwriad yw lleihau'r risg o orgynhesu drwy reoli'r gwres o'r haul pan gaiff unrhyw ffenestri eu newid.

- Senario 2: Addasu atig yn ystafelloedd cyfanheddol â ffenestr(i) / ffenestr(i) to / ffenestr(i) dormer newydd.

Ystyriwyd bod risg gymharol uchel o orgynhesu yn gysylltiedig â hyn lle ceir llawer o wydr a chryn wres o'r haul.

Crynodeb o'r ymatebion:

Cwestiwn 44: A ydych yn cytuno â'r cynnig i ehangu Rhan O o'r Rheoliadau Adeiladu er mwyn cwmpasu gwaith ar anheddau presennol?

Cwestiwn 44: A ydych yn cytuno â'r cynnig i ehangu Rhan O o'r Rheoliadau Adeiladu er mwyn cwmpasu gwaith ar anheddau presennol?																
	Pawb a ymatebodd	Pensaer	Adeiladwr/Datblygwr	Meddiannydd Adeilad/Preswylydd	Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu	Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr	Asesydd Ynni	Sector ynni	Awdurdod Lleol	Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi	Parti arall â diddordeb (manylwch)	Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord	Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu	Adeiladwr bach/canolig	Heb ei nodi	Adeiladwr tai mawr
Cyfanswm	**49**	**3**	**2**	**0**	**1**	**4**	**1**	**1**	**8**	**9**	**17**	**3**	**0**	**0**	**0**	**0**
a. Ydw	63%	33%	0%	0%	100%	100%	100%	0%	100%	56%	59%	33%	0%	0%	0%	0%
b. Na	8%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	12%	67%	0%	0%	0%	0%
c. Ddim yn siwr	29%	67%	100%	0%	0%	0%	0%	100%	0%	44%	29%	0%	0%	0%	0%	0%

2.3 O'r 49 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (63%) yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 8% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 29% yn ansicr.

Ymatebion y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig

2.4 Dywedodd y rhai a gefnogai'r cynnig y dylid ymestyn Rhan O i gynnwys gwaith ar adeiladau presennol gan y gall mesurau ôl-osod effeithio ar y perygl o orgynhesu e.e. effeithio ar faint o wydr a chynhesu gan yr haul.

Fe wnaethant hefyd gynnig rhai argymhellion.

- **Ehangu'r cwmpas ymhellach**: Cawsom awgrymiadau gan sawl ymatebydd y dylem ehangu'r cwmpas ymhellach. Cynigiodd dau y gallai gynnwys 'newid sylweddol yn y defnydd' gan y byddai perchennog tŷ yn disgwyl yr un lefel o waith i leihau'r perygl o orgynhesu ag ar gyfer annedd newydd. Byddai hynny hefyd yn osgoi gwaith ôl-osod ychwanegol yn y dyfodol. Awgrymodd un y gellid ymestyn y cwmpas i gynnwys pob gwaith adnewyddu sy'n cynyddu arwynebedd y gwydr oni bai bod mesurau lliniaru, fel gwydr rheoli solar, yn cael eu defnyddio. Roedden nhw hefyd o'r farn y gellid ymestyn y cwmpas i adeiladau addysgol a gwestai gan fod ganddynt lawer yn gyffredin ag adeiladau preswyl ac yn gallu gorgynhesu.
- **Darparu canllawiau clir:** Gofynnodd un ymatebydd am ganllawiau clir, ymarferol ar gyfer gosod ffenestri newydd yn lle hen rai ac addasu atig yn stafell wydrog er mwyn osgoi cyfyngiadau diangen ar gynnyrch wrth reoli'r perygl o orgynhesu.
- **Integreiddio â'r Model Ynni Cartref**: Argymhellodd un ymatebydd y dylid integreiddio'r asesiad Rhan O â'r Model Ynni Cartref. Felly, caiff awyru, gwres yr haul, gorgynhesu a'r galw am ynni i gyd eu hystyried gyda'i gilydd.

Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig

- **Ehangu'r cwmpas ymhellach:** Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnwys unrhyw waith sy'n golygu newid arwyddocaol i berfformiad thermol annedd, megis gwelliannau i wead adeilad.
- **Mwy o ffocws ar gynaliadwyedd** Awgrymodd un ymatebydd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio digon o ddeunydd inswleiddio a'i osod yn gywir yn ogystal ag awyru i reoli gorgynhesu.
- **Costus a chymhleth:** Roedd gan un ymatebydd bryderon y gallai ôl-osod mesurau atal gorgynhesu mewn anheddau fod yn gostus a chymhleth.
- **Yn arwain at ganlyniadau anfwriadol:** Roedd un ymatebydd yn pryderu y gallai'r cynnig arwain at bobl yn codi stafelloedd haul heb eu gwresogi yn lle estyniadau i osgoi llawer o effeithiau'r rheoliad. Gallai hyn arwain at bobl yn defnyddio gwresogyddion 'â phlwg'.

Pwyntiau ychwanegol a godwyd gan y rhai a ddywedodd "dim yn siwr"

- **Symlrwydd:** Gofynnodd un ymatebydd bod y broses yn cael ei chadw'n syml.
- **Integreiddio â Rheoliadau Adeiladu eraill:** Pwysleisiodd un ymatebydd y dylai Rhan O alinio â Rhan K, Rhan Q a Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu. Dylai sicrhau bod ffenestri mawr sy'n agor ar gyfer awyru fodloni hefyd safonau gwarchod a diogelwch. Gallai hyn ofyn am ddeunydd cymhleth a drutach o ran deunydd, a allai effeithio ar gost-effeithiolrwydd a symlrwydd dyluniad systemau alwminiwm.

Sylwadau ychwanegol

- **Egluro sut i gyfrif yr arwynebedd clir (*free area*):** Roedd un ymatebydd yn pryderu sut mae'r canllawiau yn y fersiwn gyfredol o Ddogfen Gymeradwy O yn cael eu cymhwyso. Mae hyn yn ymwneud â'r Dull wedi'i Symleiddio, yn enwedig y gofynion tynnu gwres a amlinellir yn Nhabl 1.2. Awgrymir bod llawer o ddefnyddwyr yn ansicr sut i gyfrif arwynebedd clir ffenestri colfachog neu ffenestri colynnog (troelli). Mae Dogfen Gymeradwyo O yn Lloegr yn darparu canllawiau addas yn ei hatodiad D.

Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 44

2.5 Rydym wedi ystyried y safbwyntiau a fynegwyd yn ofalus. Mae mwyafrif cryf (63%) o blaid y cynnig. Mae hynny'n dangos bod cefnogaeth glir i ddelio â pheryglon gorgynhesu wrth gynnal rhai mathau penodol o waith adeiladu mewn anheddau presennol. Mae'n tynnu sylw hefyd at bwysigrwydd sicrhau bod gofynion yn gymesur, wedi'u diffinio'n glir a bod canllawiau ymarferol yn cydfynd â nhw.

2.6 Yng ngoleuni hyn, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â chyflwyno gofynion newydd i leihau gorgynhesu mewn anheddau presennol lle gwneir mathau perthnasol o waith. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried yr awgrymiadau a godwyd gan ymatebwyr, gan gynnwys darparu canllawiau cliriach ar sut i gyfrif yr arwynebedd clir o gwmpas ffenestri. O ran y sylw ynghylch alinio Rhan O â Rhan K, Q ac L, mae'r Rheoliadau Adeiladu eisoes yn gofyn bod yr holl Rannau perthnasol i gyd yn cydymffurfio ar yr un pryd. Rhaid i ffenestri mawr, sy'n agor ar gyfer awyru hefyd fodloni gofynion diogelwch ac ynni. Ar hyn o bryd mae Dogfen Gymeradwy O yn darparu canllawiau (adran 0) i helpu dylunwyr i reoli'r rhyngweithiau hyn a sicrhau cydymffurfiaeth; fodd bynnag, cyfrifoldeb y rhai sy'n dylunio neu'n gwneud y gwaith adeiladu yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion rheoleiddio o hyd.

2.7 Mewn ymateb i'r ymateb sy'n gofyn am fwy o bwyslais ar inswleiddio, mae'r Llywodraeth yn cydnabod rôl gwead adeilad at gynnal cysur thermol. Yng Nghymru, ymdrinnir â hyn yn Nogfen Gymeradwyo L: Cyfrol 1 (anheddau), sy'n gofyn am welliannau canlyniadol i berfformiad ynni pan wneir gwaith penodol ar anheddau presennol, lle medrir.

2.8 Awgrymwyd y dylid integreiddio'r asesiad Rhan O â'r fethodoleg gyfrifo genedlaethol newydd ar gyfer asesu perfformiad ynni anheddau, y Model Ynni Cartref (HEM). Mae'r HEM newydd yn cael ei ddatblygu i gymryd lle'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) a bydd yn cael ei ddefnyddio i ddangos cydymffurfiaeth â Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu. Mae'r injan HEM yn eiddo i Lywodraeth y DU ac nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i'w ddefnyddio i gyfri'r perygl o orgynhesu mewn anheddau.

2.9 Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, nid ydym wedi cynnig cymhwyso Rhan O ar gyfer mathau eraill o waith adeiladu ar anheddau presennol. Yn hytrach, mae'r ffocws ar set darged o waith adeiladu sydd â'r potensial mwyaf i gyflwyno neu waethygu'r perygl o orgynhesu. Bydd unrhyw adolygiad yn y dyfodol yn ystyried ehangu'r gofyn i fathau eraill o waith, gan nodi'r sylfaen dystiolaeth gynyddol ac argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC),[1] sy'n tynnu sylw at orgynhesu fel perygl cynyddol, yn enwedig wrth adnewyddu ac addasu adeiladau.

2.10 Mae'r estyniad arfaethedig i Ran O yn gam cyntaf cymesur, sy'n gofyn am ystyried peryglon gorgynhesu lle gall rhai mathau o waith adeiladu gynyddu'r perygl, megis newidiadau i wydr neu ddyluniad. Mae'n gosod safon ofynnol. Ond mae'r Ddogfen Gymeradwy O ddrafft yn cynnwys testun hefyd i annog dylunwyr i asesu peryglon gorgynhesu mathau eraill o waith ac yn darparu enghreifftiau o ganllawiau defnyddiol ar sut i'w lliniaru. Byddwn yn parhau i adolygu'r dystiolaeth ac efallai yn ystyried ehangu'r cwmpas yn y dyfodol.

Cwestiwn 45: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno sylwadau ychwanegol yn Nogfen Gymeradwy O ar estyniadau newydd i anheddau presennol lle mae canran gymharol uchel o'r estyniad yn wydr?

Cwestiwn 45: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno sylwadau ychwanegol yn Nogfen Gymeradwy O ar estyniadau newydd i anheddau presennol lle mae canran gymharol uchel o'r estyniad yn wydr?																
	Pawb a ymatebodd	Pensaer	Adeiladwr/Datblygwr	Meddiannydd Adeilad/Preswylydd	Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu	Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr	Asesydd Ynni	Sector ynni	Awdurdod Lleol	Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi	Parti arall â diddordeb (manylwch)	Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord	Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu	Adeiladwr bach/canolig	Heb ei nodi	Adeiladwr tai mawr
Cyfanswm	**46**	**3**	**2**	**0**	**1**	**4**	**1**	**1**	**8**	**8**	**15**	**3**	**0**	**0**	**0**	**0**
a. Ydw	65%	33%	50%	0%	100%	100%	100%	0%	88%	50%	53%	100%	0%	0%	0%	0%
b. Na	11%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	100%	13%	0%	20%	0%	0%	0%	0%	0%
c. Ddim yn siwr	24%	67%	50%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	50%	27%	0%	0%	0%	0%	0%

[1] Climate Change Committee recommendations to Government, adapting to climate change Adapting to climate change - Progress in Wales - Climate Change Committee

2.11 O'r 46 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (65%) yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 11% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 24% yn ansicr.

Rhesymau dros gefnogi'r cynnig

2.12 Roedd y rhai a gefnogai'r cynnig yn gyffredinol yn cytuno â phwysigrwydd sylwadau ychwanegol i ddiogelu estyniadau gwydrog iawn rhag gorgynhesu.

Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig

- **Gorfod cynnal asesiad gorgyhesu ar gyfer pob estyniad:** Tynnodd dau ymatebydd sylw at y ffaith bod estyniadau'n aml yn cynnwys llawer o wydr. Gallai hyn gynyddu'n sylweddol y perygl o orgynhesu'r anheddau. Er mwyn lleiihau'r perygl, dylai fod yn orfodol cynnal asesiad gorgynhesu yn hytrach na chyflwyno sylwadau yn unig. Cynigiodd un o'r ymatebwyr y dylid pennu'r angen am fesurau lliniaru yn nhermau cymhareb gwydr i arwynebedd llawr e.e. 15% fel yn achos fflatiau.
- **Cymysgu canllawiau statudol gyda sylwadau ychwanegol:** Roedd un ymatebydd yn cefnogi bwriad y newid arfaethedig. Ond roedd o'r farn y gallai'r nodyn arfaethedig o dan Baragraff 2.1 o'r Ddogfen Gymeradwy ddrafft, greu dryswch. Gallai rhai o'r rheini sy'n gwneud 'gwaith adeiladu arall' ddehongli'r nodyn i olygu mai dim ond canllawiau'r diwydiant y bydd angen iddynt eu hystyried. Gall eraill gredu bod rhaid iddynt gydymffurfio â chanllawiau'r diwydiant. Gall cymysgu canllawiau statudol â sylwadau ychwanegol (nid statudol) greu dryswch.
- **Angen strategaethau goddefol:** Gofynnodd un ymatebydd y dylid caniatáu strategaethau goddefol i leihau'r perygl o orgynhesu.
- **Cyfyngu'r asesiad:** Awgrymodd ymatebydd y dylai'r mesurau a'r asesiad gorgynhesu gael eu cyfyngu i estyniad yr adeilad. Mae'n anoddach mynd i'r afael â gweddill yr adeilad.

Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 45

2.13 Mae'r lefel gref o gefnogaeth (65%) i'r cynnig hwn yn dangos mewn estyniad newydd â chanran uchel ohono'n wydr mewn annedd presennol, bod cydnabyddiaeth bod rhywfaint o berygl y gallai'r annedd ynghyd â'r estyniad orgynhesu. Yng ngoleuni hyn, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â darparu sylwadau ychwanegol o fewn Dogfen Gymeradwy O i helpu i ymdrin â'r peryglon hyn.

2.14 Mewn ymateb i'r sylwadau ynghylch caniatáu strategaethau goddefol a'r awgrym i gyfyngu'r asesiad gorgynhesu i estyniadau'n unig, ac nid i'r adeilad presennol, bwriedir i'r sylwadau ychwanegol yn Nogfen Gymeradwy O ar gyfer estyniadau â llawer o wydr ynddyn nhw gyfeirio dylunwyr at ffynonellau gwybodaeth ychwanegol. Nid ydyn nhw'n rhan o'r canllaw technegol ei hun, ac felly nid ydyn nhw'n gofyn am unrhyw strategaethau neu asesiadau penodol nac yn cyfyngu arnyn nhw. Byddwn yn ystyried sut i wneud hyn yn gliriach yn y ddogfen gymeradwy derfynol (gweler paragraff 2.16 isod).

2.15 Awgrymodd rhai o'r ymatebion y dylai fod yn orfodol cynnal asesiad gorgynhesu yn lle'r cynnig i gyflwyno sylwadau ychwanegol yn unig (nid canllawiau statudol), gan nodi bod estyniadau yn aml yn wydrog iawn. Mae ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 44 uchod, yn esbonio mai ein ffocws ar hyn o bryd yw targedu set o waith adeiladu yr ystyrir ei fod yn cynyddu'r perygl o orgynhesu yn ystod yr haf, Bwriedir i'r cynnig fod yn gam cyntaf cymesur mewn adeiladau presennol.

2.16 Dywedodd un ymatebydd a gefnogai'r cynnig y gallai'r cymysgedd o ganllawiau statudol a sylwadau ychwanegol greu dryswch. Mae adran 0 o bob un o'r Dogfennau Cymeradwy yn darparu gwybodaeth i ddarllenwyr ar sut i ddefnyddio'r canllawiau, gan roi gwybod i ddarllenwyr bod '*Additional commentary in italic text appears after some numbered paragraphs. This commentary is intended to assist understanding of the immediately preceding paragraph or sub-paragraph, or to direct readers to sources of additional information, but is not part of the technical guidance itself.'* Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi'r adborth a byddwn yn ystyried a allwn wneud hyn yn gliriach yn y Ddogfen Gymeradwy O derfynol.

Cwestiwn 46: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno canllawiau newydd yn Nogfen Gymeradwy O ar newid ffenestr(i) mewn fflatiau gwydrog iawn?

Cwestiwn 46: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno canllawiau newydd yn Nogfen Gymeradwy O ar newid ffenestr(i) mewn fflatiau gwydrog iawn?																
	Pawb a ymatebodd	Pensaer	Adeiladwr/Datblygwr	Meddiannydd Adeilad/Preswylydd	Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu	Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr	Asesydd Ynni	Sector ynni	Awdurdod Lleol	Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi	Parti arall â diddordeb (manylwch)	Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord	Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu	Adeiladwr bach/canolig	Heb ei nodi	Adeiladwr tai mawr
Cyfanswm	**45**	**3**	**2**	**0**	**1**	**4**	**1**	**1**	**8**	**7**	**15**	**3**	**0**	**0**	**0**	**0**
a. Ydw	76%	33%	50%	0%	100%	100%	100%	0%	100%	57%	73%	100%	0%	0%	0%	0%
b. Na	2%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	100%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%
c. Ddim yn siwr	22%	67%	50%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	43%	27%	0%	0%	0%	0%	0%

2.17 O'r 45 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (76%) yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, dim ond 2% oedd yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 22% yn ansicr.

Ymatebion y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig

2.18 O'r ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â'r cynnig, gwnaeth sawl ymatebydd awgrymiadau ychwanegol.

- **Rôl cynlluniau person cymwys (CPS):** Awgrymodd un ymatebydd fod angen canllawiau clir, lle mae gwaith adeiladu rheoladwy yn cael ei wneud sy'n ychwanegol at waith o fewn cwmpas cynllun hunan-ardystio, bod gan weithredwr y CPS ddyletswydd i hysbysu'r cleient bod angen rhagor o waith gan eraill. Bydd hyn yn bwysig lle dewisir Opsiwn 2.3b (mesurau rheoli solar amgen). Gall dyfeisiau cysgodi solar fod y tu allan i gwmpas cynllun hunan-ardystio'r gweithredwr sydd wedi comisiynu ffenestri newydd yn lle hen rai. Felly, byddai'n rhaid i'r cynllun hunan-ardystio hysbysu'r cleient bod angen gwaith ychwanegol gan drydydd partïon i osod mesurau rheoli solar. Ar ben hynny, efallai na fydd yn briodol i weithredwr y cynllun hunan-ardystio roi ei dystysgrif nes bod y mesurau rheoli solar wedi'u gosod yn briodol, gan mai dim ond ar y pwynt hwn y mae'r prosiect yn cydymffurfio â rheoliad 4 a 7 o Reoliadau Adeiladu.
- **Angen cymeradwyaeth gynllunio:** Nododd yr un ymatebydd, p'un a ddewisir Opsiwn 2.3a neu Opsiwn 2.3b, efallai y bydd angen cymeradwyaeth gynllunio ar flociau o fflatiau.
- **Angen hyblygrwydd:** Argymhellodd un ymatebydd hyblygrwydd o ran g-werth, cysgod gweithredol a disgwyliadau preswylwyr.
- **Angen eglurhad**: Gofynnodd ymatebydd arall am fwy o arweiniad i egluro bod 15% o wydr o'i gymharu ag arwynebedd y llawr yn golygu'r stafell dan sylw, ac nid ag arwynebedd llawr y fflat gyfan.

Ni chawsom bwyntiau ychwanegol gan y rhai sy'n gwrthwynebu neu'n ansicr o'r cynnig.

Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 46

2.19 Mae'r lefel gref o gefnogaeth (76%) i'r cynnig hwn yn dangos bod ymatebwyr yn cytuno â mesurau rheoli solar ar gyfer fflatiau sydd â llawer o wydr. Yn dilyn hynny, rydym am fwrw ymlaen â chyflwyno canllawiau newydd yn Nogfen Gymeradwy O i leihau'r risg y bydd gosod ffenestri a drysau newydd yn lle hen rai mewn fflatiau gwydrog iawn yn debygol o arwain at orgynhesu.

2.20 O'r ymatebion a dderbyniwyd, awgrymodd un ymatebydd fod angen rhagor o arweiniad os yw'r gwaith sy'n cael ei wneud, yn enwedig mewn perthynas â mesurau rheoli solar amgen, y tu allan i gwmpas Cynllun Hunan-Ardystio (SCS). Er ein bod yn cydnabod y gallai fod angen mesurau rheoli solar amgen wrth ffenestri a drysau newydd mewn fflatiau gwydrog iawn, rydym yn rhagweld y bydd mesurau amgen o'r fath yn gymharol isel o ran nifer. Mae tystiolaeth ar gadw g-werth o hyd at 0.40 yn dangos bod modd sicrhau'r

gwerth hwn ar gost ychwanegol gymharol fach a thrwy'r atebion gwydru niferus sydd ar gael ar y farchnad ar hyn o bryd. Ar sail hyn, mae swyddogion o'r farn nad oes angen canllawiau newydd o fewn Dogfen Gymeradwy O. Ond byddwn yn diweddaru'r cyfeiriad at BR364 (*Solar Shading of Buildings, Second Edition)* islaw'r paragraffau perthnasol ac yn ystyried y posibilrwydd o ddiweddaru Cymwyseddau Technegol Gorfodol (MTCs) SCS i helpu i esbonio llwybrau cydymffurfio.

2.21 G-werth o 0.40 yw'r targed uchaf y bydd swyddogion yn ei ystyried o ran darparu mesurau i leihau gorgynhesu yn ystod yr haf. Mae unrhyw hyblygrwydd neu gynnydd yn y gwerth hwn yn debygol o leihau effeithiolrwydd y mesurau lliniaru, yn enwedig os yw'r mesurau hynny'n dibynnu ar feddiannydd y fflatiau.

2.22 Mae ymatebion eraill yn cydnabod y gallai fod angen caniatâd cynllunio i osod ffenestri newydd mewn bloc o fflatiau â llawer o wydr. Mae swyddogion yn cydnabod y gallai fod angen caniatâd cynllunio, ond mae hyn yn dibynnu ar yr adeilad a lefel y gwaith a gynigir, sy'n fater sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn a'r Ddogfen Gymeradwy O. Byddai angen i'r dylunydd / datblygwr neu berchennog y tŷ ystyried a oes angen caniatâd cynllunio, yn ogystal ag unrhyw ofynion deddfwriaethol eraill, bob yn achos.

2.23 Gall swyddogion egluro bod angen mesurau rheoli solar mewn fflatiau gwydrog iawn lle mae arwynebedd y gwydr yn fwy na 15% o gyfanswm arwynebedd y llawr. Nid yw'r ganran hon yn ymdrin â stafelloedd unigol, ond â'r fflat gyfan, i adlewyrchu bod y perygl o orgynhesu wedi'i asesu ar lefel annedd ac nid fesul stafell.

Cwestiwn 47: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno canllawiau newydd yn Nogfen Gymeradwy O ar addasu atigau yn ystafelloedd cyfanheddol â ffenestr(i) / ffenestr(i) to / ffenestr(i) dormer newydd?

Cwestiwn 47: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno canllawiau newydd yn Nogfen Gymeradwy O ar addasu atigau yn ystafelloedd cyfanheddol â ffenestr(i) / ffenestr(i) to / ffenestr(i) dormer newydd?																
	Pawb a ymatebodd	Pensaer	Adeiladwr/Datblygwr	Meddiannydd Adeilad/Preswylydd	Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu	Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr	Asesydd Ynni	Sector ynni	Awdurdod Lleol	Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi	Parti arall â diddordeb (manylwch)	Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord	Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu	Adeiladwr bach/canolig	Heb ei nodi	Adeiladwr tai mawr
Cyfanswm	**47**	**3**	**2**	**0**	**1**	**4**	**1**	**1**	**8**	**9**	**15**	**3**	**0**	**0**	**0**	**0**
a. Ydw	77%	33%	50%	0%	100%	100%	100%	0%	100%	67%	73%	100%	0%	0%	0%	0%
b. Na	2%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	100%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%
c. Ddim yn siwr	21%	67%	50%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	33%	27%	0%	0%	0%	0%	0%

2.24 O'r 45 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (77%) yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, dim ond 2% oedd yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 21% yn ansicr.

Rhesymau dros gefnogi'r cynnig

2.25 Roedd y rhesymau a roddwyd dros gefnogi'r cynnig yn cyd-fynd â'r rhai a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig

- **Yr hyn sy'n ofynnol** Dylid ei gyfyngu i addasu atigau. Mae'n anoddach gwneud hyn ar gyfer gweddill yr eiddo.

Sylwadau ychwanegol

- **Ffenestri To:** Pwysleisiodd un ymatebydd fod angen ychwanegu ffenestri to at Ran O (a Rhan F) fel dull ar gyfer puro'r aer (*purge ventilation*, nid er mwyn ychwanegu ffenestri yn unig.

Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 47

2.26 Mae'r lefel gref o gefnogaeth (77%) i'r cynnig hwn yn dangos bod ymatebwyr yn cytuno â mesurau rheoli solar os yw canran gymharol uchel (>15%) o'r arwynebedd mewn atig sy'n cael ei droi'n ystafell gyfanheddol yn wydr. Yn dilyn hynny, rydym am fwrw ymlaen â chyflwyno canllawiau newydd yn Nogfen Gymeradwy O i leihau'r risg y bydd atig sy'n cael ei droi'n stafell gyfanheddol yn gorgynhesu.

2.27 Mewn ymateb i sylwadau oedd yn gwrthwynebu'r cynnig hwn, esboniwyd y gofyniad yn llawn yn y ddogfen ymgynghori a'r fersiwn ymgynghori o Ddogfen Gymeradwy O. Yn y Ddogfen Gymeradwy hon, cynhwysodd swyddogion sylwadau ychwanegol (mewn testun italig) ar ôl paragraff 2.8 i'w gwneud yn glir *bod 'the guidance in paragraphs 2.6 to 2.8 is applicable only for the habitable room(s) being created by the loft conversion, and not for the whole dwelling.'* Felly, mae'r canllawiau newydd yn Nogfen Gymeradwy O yn ymdrin yn unig â'r atig ac nid â gwaith adeiladu mewn mannau eraill yng ngweddill yr eiddo.

2.28 Nodwyd pryderon eraill gan gynnwys y gofyn i gynnwys cyfeiriad at ffenestri to ('rooflights') yn Rhan O a Rhan F fel modd i buro'r aer. Mae'r ddogfen ymgynghori a'r fersiwn ymgynghori o Ddogfen Gymeradwy O eisoes yn cyfeirio at 'rooflights' (ynghyd â ffenestri) fel ffordd o leihau'r perygl o orgynhesu wrth drosi atig yn stafell wydrog iawn. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried newid y canllawiau drafft i'w gwneud yn glir y gall ffenestri to y gellir eu hagor gyfrannu at yr arwynebedd rhydd sydd ei angen ar gyfer rhyddhau gwres.

3. Ymateb i'r Asesiad Effaith

3.1 Roedd Pennod 7 yr ymgynghoriad yn ystyried yr Asesiad Effaith ar y cam ymgynghori. Mae Rheoliadau Adeiladu yn dylanwadu'n fawr ar y ffordd y caiff ein hadeiladau eu codi a'u defnyddio. Felly, maent yn helpu i sicrhau manteision sylweddol i gymdeithas. Gall fod costau i fusnesau ac unigolion yn gysylltiedig â gweithgarwch rheoleiddio hefyd. Gwnaethom gyhoeddi Asesiad Effaith gyda'r ymgynghoriad a oedd yn ystyried costau a manteision y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Adeiladu.

3.2 Ni dderbyniwyd adborth penodol mewn ymateb i Gwestiynau 65 a 66 o'r ymgynghoriad ynglŷn â'r cynnig i ehangu Rhan O o'r Rheoliadau Adeiladu i'w chymhwyso i waith adeiladu penodol ar adeiladau presennol. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn delio â chostau ac effeithiau yn canolbwyntio'n bennaf ar safon arfaethedig Rhan L 2026, sydd i fod i ddod i rym ar 4 Mawrth 2027. O ganlyniad, nid chafwyd tystiolaeth gan ymatebwyr ar y costau a'r manteision tebygol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau a gynigir i Ran O. Byddwn yn adolygu ac yn asesu'n ofalus y costau a'r manteision a nodir yn yr asesiad effaith ar y cam ymgynghori, gan ystyried unrhyw dystiolaeth ychwanegol sydd ar gael, i lywio datblygiad yr asesiad effaith terfynol.

4. Y Camau Nesaf

4.1 Caiff Dogfen Gymeradwy O (gorgynhesu) ei chwblhau'n derfynol a bydd y rheoliadau'n cael eu drafftio yn unol ag ymatebion y Llywodraeth i bob cwestiwn uchod. Bydd amseriad y diwygiadau yn dibynnu ar flaenoriaethu'r rhaglen ddeddfwriaethol, fodd bynnag, ar hyn o bryd rydym yn amcangyfrif y bydd y rheoliadau diwygio yn cael eu gosod a bydd y Ddogfen Gymeradwy derfynol (canllawiau statudol) yn cael ei chyhoeddi yn 2027, gan ddod i rym chwe mis ar ôl ei chyhoeddi.